# CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 13 HYDREF 2020

**Yn bresennol:** Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes); Miss Hannah Toor (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau: 09:45**
**Amser Gorffen: 13:15**

**Ymddiheuriadau:** Dd/B

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Datganodd Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd) fuddiant yn Ynys Môn.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Trafodwyd cyllideb y Comisiwn gyda Llywodraeth Cymru, ynghyd â Chyfnodau Swydd Comisiynwyr.

2.2. Trafodwyd gyda Llywodraeth Cymru y gallai rhywfaint o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y ddwy flynedd nesaf gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith i ddatblygu'r porth ymgynghori newydd.

2.3. Mae'r Gweinidog wedi ymateb i'r Pwyllgor Deisebau ynglŷn â deiseb Hope a Chaergwrle.

2.4. Cadarnhawyd bod Cam Dau y Bil Llywodraeth Leol wedi cael ei gwblhau ac y disgwylir i Gam Tri gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd. Dylai'r Comisiwn sicrhau ei fod yn ystyried pleidlais sengl drosglwyddadwy yn ei ymgynghoriadau ar gyfer y polisi ac ymarfer nesaf.

2.5. **Gweithredu –** Y Prif Weithredwr i Gysylltu ag Elaina o Lywodraeth Cymru i holi a ydynt yn disgwyl i'r Comisiwn ailystyried unrhyw arolygon a gwblhawyd hyd yma.

2.6. Cadarnhawyd bod Gorchymyn Sir Fynwy ar y Rhestr Is-ddeddfwriaeth.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 01 Medi 2020

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Mae'r holiaduron wedi cael eu dosbarthu ac mae arolygon mwy diweddar wedi cael mwy o ymatebion. Bydd y Prif Weithredwr yn anfon ymatebion wedi'u coladu o'r holiadur ôl-arolwg i'w defnyddio ar gyfer yr adroddiad Ôl-arolwg. Bydd yr ymatebion yn cael eu dosbarthu i'r Comisiynwyr hefyd.

4.2. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod wedi bod mewn cysylltiad ag Eliesha Training ynglŷn â sesiynau ar gyfer 2021. Bydd un o'r sesiynau hyfforddi a gadarnhawyd yn ymwneud ag ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

4.3. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y Cytundeb Fframwaith yn cael ei godi yng Nghyfarfod Cyswllt Llywodraeth Cymru ar 14 Hydref 2020.

4.4. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod bod ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu derbyn gan y Comisiwn yn bennaf gan fusnesau.

4.5. **Gweithredu –** Y Cadeirydd i ymateb i'r Cynghorydd Armand Watts erbyn 19 Hydref 2020.

## 5. Arolwg Etholiadol Sir Fynwy – Opsiynau Drafft

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 08 Hydref 2020 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, sef Govilon, Llanelli a Llan-ffwyst Fawr, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol Llan-ffwyst Fawr a Govilon, a Llanelli.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu cymunedau rhanedig.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o bedwar aelod, fel yr aelodaeth bresennol.**

5.3. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
| --- | --- |
| Llanfoist Fawr and Govilon | Llan-ffwyst Fawr a Govilon |
| Llanelly | Llanelli |

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 2, sef Goetre Fawr, Llanbadoc a Brynbuga, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol Goetre Fawr, a Llanbadoc a Brynbuga.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu cymunedau rhanedig.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o dri aelod, fel yr aelodaeth bresennol.**

5.5. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
| --- | --- |
| Goetre Fawr | Goetre Fawr |
| Llanbadoc and Usk | Llanbadoc a Brynbuga |

5.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 3, sef Llanfihangel Troddi, Rhaglan a Thryleg Unedig, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol Llanfihangel Troddi, Rhaglan a Thryleg Unedig.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'r un o'r wardiau'n fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o dri aelod, fel yr aelodaeth bresennol.**

5.7. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
| --- | --- |
| Mitchel Troy | Llanfihangel Troddi |

| | |
|---|---|
| Raglan | Rhaglan |
| Trellech United | Tryleg Unedig |

5.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 4, sef Bulwark a Thornwell, Castell Cas-gwent, a Larkfield a St Kingsmark, a **chytunodd ar opsiwn 3.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys chwe ward etholiadol Bulwark, Castell Cas-gwent, Larkfield, Mount Pleasant, St Kingsmark a Thornwell. Mae'r Comisiwn wedi ystyried amrywiant o 47% yn ward Castell Cas-gwent yn y dyfodol a bydd yn adolygu hyn yn gynnar yn y cylch nesaf.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu cymunedau rhanedig.
- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o chwe aelod, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

5.9. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Bulwark | Bulwark |
| Chepstow Castle | Castell Cas-gwent |
| Larkfield | Larkfield |
| Mount Pleasant | Mount Pleasant |
| St Kingsmark | St Kingsmark |
| Thornwell | Thornwell |

5.10. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 5, sef Dwyrain Magwyr gyda Gwndy a Gorllewin Magwyr, a **chytunodd ar opsiwn 3.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol Dwyrain Magwyr a Gorllewin Magwyr.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu cymunedau rhanedig.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o dri aelod, fel yr aelodaeth bresennol.**

5.11. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Magor East | Dwyrain Magwyr |
| Magor West | Gorllewin Magwyr |

5.12. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer ward etholiadol bresennol Rhanbarth 6, sef Porth Sgiwed, a **chytunodd ar opsiwn 2.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys ward etholiadol Porth Sgiwed. Mae'r Comisiwn wedi ystyried amrywiant yn ward Porth Sgiwed yn y dyfodol a bydd yn adolygu hyn yn gynnar yn y cylch nesaf.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu cymunedau rhanedig.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o un aelod, fel yr aelodaeth bresennol.**

5.13. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Portskewett | Porth Sgiwed |

5.14. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer ward etholiadol bresennol Rhanbarth 7, sef Drybridge, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys ward etholiadol Drybridge a'r Dref.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu cymunedau rhanedig.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o ddau aelod, fel yr aelodaeth bresennol.**

5.15. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Drybridge | Drybridge |
| Town | Y Dref |

## 6. Arolwg Etholiadol Ynys Môn – Opsiynau Terfynol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 06 Hydref 2020 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, sef Caergybi ac Ynys Gybi, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol Parc a'r Mynydd, Tref Cybi ac Ynys Gybi.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn gymedrol.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o saith aelod, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

6.3. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Parc a'r Mynydd | Parc a'r Mynydd |
| Tref Cybi | Tref Cybi |
| Ynys Gybi | Ynys Gybi |

6.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 2, sef Llifon, Talybolion a Thwrcelyn, a **chytunodd ar opsiwn 1.**

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol Bro'r Llynnoedd, Talybolion a Thwrcelyn.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw un (33%) o'r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'n creu cymunedau rhanedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o wyth aelod, fel yr aelodaeth bresennol.**

6.5. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Bro'r Llynnoedd | Bro'r Llynnoedd |
| Talybolion | Talybolion |
| Twrcelyn | Twrcelyn |

6.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 3, sef Bro Rhosyr, Canolbarth Môn, Llifon a Lligwy, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol Bodowyr, Cefni, Canolbarth Môn, Crigyll a Lligwy.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw un (20%) o'r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'r un o'r wardiau'n fwy na +/- 25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o ddeuddeg aelod, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

6.7. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Bodowyr | Bodowyr |
| Cefni | Cefni |
| Canolbarth Môn | Canolbarth Môn |

| | |
|---|---|
| Crigyll | Crigyll |
| Lligwy | Lligwy |

6.8. **Cymeradwywyd** Adroddiad Argymhellion Terfynol Ynys Môn yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 7. Adroddiad Cynnydd Arolygon

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 06 Hydref 2020 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** ei gynnwys.

7.2. **Nodwyd** bod yr adroddiadau Terfynol ar gyfer Caerdydd, Caerffili a Wrecsam ar y cam argraffu ar hyn o bryd ac y byddant yn cael eu cyhoeddi'n electronig ar 05 Tachwedd 2020. Bydd y copïau caled o'r tri adroddiad yn cael eu casglu gan y Post Brenhinol ddydd Mawrth 10 Tachwedd. Mae briffiadau gan y Prif Weithredwr wedi cael eu trefnu.

7.3. **Nodwyd** y bydd cyfnod ymgynghori Drafft Bro Morgannwg yn dod i ben ar 20 Hydref 2020 ac y bydd yr opsiynau'n cael eu trafod yng nghyfarfod 24 Tachwedd 2020.

7.4. **Nodwyd** bod y papur a'r adroddiad opsiynau ar gyfer Ymgynghoriadau Drafft Ynys Môn wedi cael eu cytuno ac y bwriedir eu cyhoeddi ar 12 Tachwedd 2020.

7.5. **Nodwyd** y bwriedir i Ymgynghoriadau Drafft Sir Fynwy gael eu cyhoeddi ar 10 Rhagfyr 2020 ac y bydd yr ymgynghoriad yn dechrau o 17 Rhagfyr 2020 tan 10 Mawrth 2021.

## 8. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) 27 Gorffennaf 2020

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2020 a **nodwyd** ei gynnwys.

8.2. Cynigiwyd i'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch TGCh a drefnwyd gan Gymwysterau Cymru gael ei gynnal ar ddiwedd mis Tachwedd ar ôl cyfarfod y Comisiwn. Ystyriwyd mai'r fformat gorau ar gyfer yr hyfforddiant fyddai i aelodau ddod i swyddfa'r Comisiwn ac i'r cyfarwyddyd gael ei

ddarparu o bell gan Gymwysterau Cymru. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn cysylltu â Chymwysterau Cymru i wneud y trefniadau angenrheidiol.

8.3. Nodwyd bod Archwilio Cymru wedi rhoi gwybod yn y cyfarfod y byddai ffïoedd archwilio ychwanegol yn cael eu codi ar yr archwiliad o gyfrifon blynyddol y Comisiwn o ganlyniad i waith archwilio ychwanegol a wnaed, ac y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn eu hadroddiad a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ARAC nesaf. Holodd yr aelodau p'un a oedd Archwilio Cymru wedi rhoi rhestr o'r rhesymau dros y ffïoedd archwilio ychwanegol yn ymwneud ag archwilio'r cyfrifon blynyddol i'r Comisiwn fel y cytunwyd yn y cyfarfod ARAC.

8.4. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i wirio'r hyn a anfonwyd gan Archwilio Cymru a gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â swm y ffïoedd ychwanegol ac unrhyw wybodaeth bellach sy'n ofynnol i egluro'r rhesymau dros y ffïoedd ychwanegol.

## 9. Rheoli Risg – Cofrestr Risg

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 19 Awst 2020 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

9.2. **Cytunwyd**, oherwydd bod nifer yr arolygon sy'n weddill a'r lefel risg ddilynol yn lleihau, y gellid gostwng y sgôr risg debygolrwydd CR2 o 4 i 3 gyda sgôr risg gyffredinol o 12 yn newid o goch i oren ar y gofrestr risg.

9.3. **Cytunwyd** y dylai camau gweithredu lliniarol ychwanegol ynglŷn â chyfyngiadau'r llywodraeth a mesurau cadw pellter cymdeithasol yn ystod COVID-19 gael eu gwneud yn CR4, sef:

- Arolwg staff COVID-19 wedi'i gwblhau sy'n dangos adborth cadarnhaol gan staff. Byddai'r effaith yn llai gan fod staff yn gweithio'n dda yn yr amgylchiadau presennol.
- Bydd archwilio mewnol yn cyflwyno adolygiad ym mis Ionawr 2021 yn manylu ar ymateb y Comisiwn i'r pandemig COVID-19.

9.4. **Cytunwyd** y dylid ychwanegu risg newydd ynglŷn â chyfnodau penodi Comisiynwyr yn dod i ben, gan arwain at bosibilrwydd o golli aelodau a'u gwybodaeth a'u profiad.

## 10. Adroddiad ar y Gyllideb

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig Hydref 2020 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys a **chytunwyd** ar y bwriad o drosglwyddo arian rhwng cyllidebau yn ffurfiol gan y Comisiwn.

10.2. **Nodwyd** y tanwariant presennol o £58,000. Fodd bynnag, disgwylir i hyn leihau'n sylweddol o ganlyniad i gostau staff ychwanegol o oddeutu £17,000 a meddalwedd Mapio Seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru o £12,000. Mae gwariant ychwanegol wedi'i gynllunio hefyd ar uwchraddio offer TGCh a chynnal archwiliad hygyrchedd o wefan CFfDLC.

10.3. **Nodwyd** y disgwylir i'r swydd Uwch Swyddog Gweithredol newydd, sef Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, ddechrau ym mis Ionawr 2021. Pe byddai'r swydd hon wedi cael ei llenwi'n gynharach ym mis Rhagfyr byddai hyn wedi ychwanegu £3,000 at gostau staff.

10.4. **Nodwyd** y bydd y tanwariant argraffu'n cael ei ddefnyddio gan fod 6 adroddiad yn aros i'w hargraffu ar hyn o bryd.

10.5. Ystyriwyd bod y Comisiwn mewn sefyllfa gyfforddus o ran y gyllideb i ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd ac ymateb pellach i'r pandemig Covid-19.

## 11. Ymarfer Asesu'r Bwrdd

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 06 Hydref gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.

11.2. **Cytunwyd** y byddai'r ymarfer asesu bwrdd blynyddol yn cael ei ohirio tan fis Mawrth/Ebrill 2021 i gyd-fynd â'r arolwg staff blynyddol. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer cysylltu'r ddau ymarfer yn fwy effeithiol.

11.3. **Nodwyd** y byddai'r Comisiynwyr yn cynnal cyfarfod rhithwir i benderfynu p'un a oedd angen unrhyw gwestiynau ychwanegol, a pha gwestiynau y dylid eu cynnwys yn yr arolwg staff. Byddai'r Comisiynwyr yn ystyried cwestiynau ychwanegol i'w cynnwys, yn ymwneud â chydnerthedd ac ymateb y Comisiwn yn ystod y pandemig COVID-19. Cynigiwyd cynnwys hyn yng nghyfarfod mis Chwefror 2021.

11.4. Nododd yr aelodau'r cynllun gwaith drafft ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn cynnwys yr eitemau ychwanegol canlynol yn y cynllun gwaith:

- Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ARAC gan gynnwys cynnydd ar weithredu argymhellion archwilio ym mis Chwefror a fyddai'n rhan o'r dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Llywodraethu blynyddol.
- Cytuno ar gyllideb flynyddol pob blwyddyn ym mis Ebrill.
- Adolygu'r Cytundeb Fframwaith ym mis Mawrth / Ebrill i gyd-fynd â'r Llythyr Cylch Gwaith a'r Cynllun Gweithredol.
- Ymateb i'r arolwg staff ym mis Ebrill.

11.5. **Nodwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnal arolwg cyflym yn ystod misoedd y gaeaf i amlygu anghenion iechyd meddwl a lles staff.

11.6. **Cytunwyd** adnewyddu'r cytundeb fframwaith a'i adolygu'n flynyddol er mwyn tynnu sylw at eitemau sydd wedi newid a chadw amcanion yn gyfredol. Dylai hyn gael ei gwblhau pan dderbynnir y llythyr cylch gwaith a'r cynllun gweithredol.

## 12. Gwersi a Ddysgwyd o Gynllunio Adnoddau Menter (ERP) 2017

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 06 Hydref 2020 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** ei gynnwys.

12.2. **Nodwyd** y byddai'r Comisiynwyr yn rhoi eu barn a'u sylwadau i'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni cyn y cyfarfod ar 24 Tachwedd 2020.

12.3. **Gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i roi'r meysydd hyn yn nhrefn blaenoriaeth a brys, a chyflwyno hyn i'r cyfarfod ar 24 Tachwedd 2020.

## 13. Arolwg ynglŷn ag Ymateb y Comisiwn i COVID-19

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig Hydref 2020 gan y Prif Weithredwr a **nodwyd** ei gynnwys.

13.2. **Nodwyd** ymateb cadarnhaol o'r arolwg yn gyffredinol. Mae'r staff wedi addasu'n dda i weithio o gartref ac wedi cael yr offer angenrheidiol i wneud hynny.

13.3. **Nodwyd** bod staff yn dod i'r swyddfa ar hyn o bryd i sicrhau bod gwaith hanfodol yn cael ei gwblhau.

13.4. **Nodwyd** y bydd y swyddfa'n dal 40% o'r staff ar y mwyaf, gydag eithriadau ar gyfer anghenion busnes.

13.5. **Nodwyd** y byddai rheolwyr yn rhoi mwy o wybodaeth i'r staff am y mesurau hylendid a diogelwch sydd ar waith yn y swyddfa.

13.6. **Nodwyd** y byddai rheolwyr yn dweud wrth staff am beidio â dod i'r swyddfa os ydynt yn teimlo'n sâl ac am ddilyn y gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer rhoi gwybod am salwch.

13.7. Trafodwyd a allai'r Comisiwn weithredu mewn amgylchedd gweithio hwb. **Anghytunwyd** â hyn gan fod gwaith y Comisiwn yn gyfrinachol.

## 14. Trefniadau Parhad Busnes Presennol

14.1. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ynglŷn â'r trefniadau presennol.

14.2. **Nodwyd** bod y swyddfa'n gweithredu ar sail rota gyda lle i 40% o'r staff, a'i bod ar gau ar ddydd Gwener.

14.3. **Cytunwyd** parhau i weithio yn y modd hwn gydag eithriadau ar gyfer anghenion busnes.

## 15. Calendr Digwyddiadau

15.1. Cyfarfod Comisiynwyr ar 04 Tachwedd 2020 a 24 Tachwedd 2020.

15.2. Cyfarfod ARAC ar 25 Tachwedd 2020.

15.3. Cyhoeddi arolygon Caerffili, Caerdydd a Wrecsam ar 05 Tachwedd 2020.

15.4. Cyhoeddi arolwg Ynys Môn ar 12 Tachwedd 2020.

## 16. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

16.1. Nodwyd y bydd Briff Caerffili ar 20 Hydref 2020 yn cael ei gynnal yn swyddfa Tŷ Hastings gyda'r CEX ac LC. Bydd swyddogion Caerffili yn mynychu o bell.

## 17. Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 04 Tachwedd 2020